




Charity No. 1045617

Helpu eich plentyn oed ysgol
ddeall beth rydych chi'n ddweud



ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Mae deall beth mae pobl eraill yn ei ddweud yn cynnwys llawer o wahanol elfennau, er enghraifft:

- ✓ deall tôn llais, mynegiant yr wyneb, ystumiau a iaith y corff
- ✓ deall y geiriau a ddefnyddir
- ✓ deall y ffordd y mae geiriau'n cael eu rhoi gyda'i gilydd
- ✓ deall yr ystyr mewn sefyllfa arbennig

Gall plant sy'n ei chael hi'n anodd deall beth mae pobl eraill yn ei ddweud, gael trafferth gyda'r elfennau hyn a gorddibynnu ar y cliwiau gweledol yn y sefyllfa o'u hamgylch.

Sylwer, gall rhai plant lefaru'n eglur a rhoi geiriau gyda'i gilydd i siarad eu hunain ond er hynny'n ei chael hi'n anodd deall pobl eraill. Gall fod yn anodd gweld beth yw anghenion sylfaenol y plant hyn.

Gall plentyn sy'n ei chael hi'n anodd deall beth mae pobl eraill yn ei ddweud, fedru ei chael hi'n anodd hefyd i:

- ➡ Dalu sylw pan ydych chi'n siarad
- ➡ Gwrando arnoch chi'n egluro rhywbeth neu wrando ar stori
- ➡ Dilyn cyfarwyddiadau
- ➡ Chwarae neu weithio ar y cyd ac ymuno mewn sgysiau
- ➡ Deall yr hyn mae'n ei ddarllen.

Os ydych chi'n pryderu am siarad eich plentyn, ewch i gael cyngor gan therapydd iaith a lleferydd cymwysedig.

Darllenwch y daflen hon i gael syniadau cyffredinol ynghylch ffyrdd y gallwch helpu eich plentyn ddeall.

Helpu eich plentyn ddeall beth rydych chi'n ddweud

Gwnewch hi'n haws gwrando trwy ostwng sŵn yn y cefndir neu ddod o hyd i gornel dawel i siarad ynddi. Defnyddiwch enw eich plentyn ac annog eich plentyn i edrych arnoch chi. Arafwch eich llefaru ychydig. Defnyddiwch bwyntio ac ystumio i ychwanegu cliwiau gweledol.

Cymerwch seibiannau hwy wrth siarad i roi digon o amser i'ch plentyn gymryd i mewn yr hyn rydych chi wedi'i ddweud a meddwl amdano. Efallai y bydd ar eich plentyn angen 5-10 eiliad!

Defnyddiwch frawddegau byrrach.

"Bydd cinio'n barod mewn munud felly, cyn i ti eistedd wrth y bwrdd, mae arna i eisiau i ti dacluso dy Lego ac yna golchi dy ddwylo."

Yn lle hyn defnyddiwch gamau llai:

"Taclusa dy Lego.
Golcha dy ddwylo."


Osgowch ddefnyddio 'cyn' ac 'ar ôl'

Gall y geiriau hyn ddrysu plentyn oherwydd fe allan nhw newid trefn cyfarwyddyd heb newid trefn y geiriau:

"Cyn golchi dy ddwylo, mae arna i eisiau i ti dacluso dy Lego."

Yn lle hyn defnyddiwch yn gyntaf a wedyn.

"Yn gyntaf taclusa dy Lego. Wedyn golcha dy ddwylo."



Nodwch enwau newydd neu enwau mwy cymhleth. Eglurwch ystyr geiriau haniaethol. Gwnewch gysylltiadau rhwng geiriau newydd a syniadau y mae eich plentyn yn eu gwybod yn barod. Gallwch ddefnyddio tynnu llun a delweddu i ategu hyn.

'Ble' ... "gair gofyn cwestiwn i holi ynghylch lle."

"Mae ffa pob y cael eu gwerthu mewn 'tun' ond mae'r canwr pop yn gwisgo trywsus 'tynn'."



'Addasu'..."mae hyn yn meddwl newid rhywbeth ar gyfer sefyllfa newydd...*addasu* llyfr i'w droi'n ffilm."

'Arswydo'..."mae hyn yn meddwl bod yn ofnus iawn."

Anogwch eich plentyn i sylwi ar eiriau nad yw'n sicr ohonyn nhw.

Weithiau nid yw plentyn yn adnabod gair ond yn aml mae wedi ei glywed o'r blaen neu mae'n gwybod rhywbeth amdano. Gwnewch o'n hwyl trwy gymryd arnoch bod yn ddiectifs geiriau! Canmolwch eich plentyn am ofyn neu edrych beth mae gair yn ei feddwl. Gadewch iddo wybod ei bod hi'n iawn dweud 'Dwi ddim yn deall'.

Eglurwch ddywediadau sydd ddim yn llythrennol neu pan fydd angen gweld beth yw'r ystyr mewn sefyllfa arbennig.

- Mae ei lygad yn fwy na'i fol
- Rwyd ti'n mynd dros ben llestri
- Dwi am roi'r gorau iddi
- Rwyd ti'n gwneud môr a mynydd o'r peth

Sicrhewch fod eich plentyn wedi deall cyfarwyddyd trwy wyllo beth mae'n wneud neu gofyn iddo ailddweud, yn ei eiriau ei hyn, beth sydd angen iddo wneud.

Gwyllo hoff raglen deledu gyda'ch gilydd.

Siaradwch am beth ddigwyddodd a thrafod unrhyw eiriau neu ymadroddion a ddefnyddiwyd a allai fod angen eglurhad. Gallwch wneud sylw yn hytrach na gofyn cwestiynau. Er enghraifft: "Roedd o'n dweud 'Yh, doniol tu hwnt!' ond roedd ei wyneb yn edrych yn ddiflas."